# JONES, DAVID OWEN (1856 - 1903), gweinidog Wesleaidd ac awdur

**Enw:** David Owen Jones
**Dyddiad geni:** 1856
**Dyddiad marw:** 1903
**Priod:** Jane Jones (née Jones)
**Rhiant:** Jane Jones
**Rhiant:** Owen Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog Wesleaidd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Margaret Beatrice Davies

Ganwyd 18 Chwefror 1856, ym Mhenmachno, yn fab i Owen a Jane Jones. Hanai o deulu Wesleaidd. Saer maen oedd ei dad i gychwyn ond cododd i fod yn llwyddiannus ei amgylchiadau a chafodd y mab fynd i ysgol ramadeg Llanrwst ac oddi yno i Grove Park, Wrecsam. Treuliodd ei flynyddoedd cyntaf yn Llugallt y tu allan i Benmachno gyda'i daid a'i nain. Anfonwyd ef i brif swyddfa banc y N. & S.W. yn Lerpwl ac ar ôl ei dymor paratoawl yno daeth i'r Drefnewydd, Sir Drefaldwyn. Dywedir iddo ddechrau cyfansoddi pregethau pan yn 15 oed, eithr wedi dod i'r Drefnewydd y dechreuodd bregethu, a hynny gyda'r Annibynwyr i gychwyn pan yn 18 oed. Yna trodd yn ôl at y Wesleaid, ac yn 1874 cafodd alwad fel pregethwr i'r Borth, Sir Aberteifi. Gorffennodd ei dymor prawf yng nghylchdeithiau Llanfyllin, Llanfaircaereinion a Bangor, a chafodd ei ordeinio yn 1879 (1875 yn ôl *Asaph*). Yn ystod yr un flwyddyn priododd â Jane Jones, merch John P. Jones, Llanfairfechan, a bu iddynt 3 o blant. Bu'n gweinidogaethu yn - Caerwys (1879); Penmachno (1880); Bethesda (1883); Birkenhead (1885); Manceinion (1888); Lerpwl (1891); Llanrhaiadr-ym-Mochnant (1894); Manceinion (1897): Lerpwl (1899); Manceinion (1902), a threuliodd 15 mlynedd mewn dwy gylchdaith. Yr oedd yn gymeriad boneddigaidd a phwyllog, a chyfrifid ef yn un o brif bregethwyr ei enwad. Bu'n olygydd *Y Winllan* am gyfnod. Ysgrifennodd lawer o erthyglau i gyfnodolion ei enwad - *Y Mynegydd*, *Y Geninen*, *Yr Hysbysydd*, ac i'r wasg. Cyhoeddodd hefyd *Esboniad ar Efengyl Marc* yn 1902. Daeth i Lanfairfechan am flwyddyn o seibiant oherwydd afiechyd a bu farw yno 7 Awst 1903 yn 47 oed, a chladdwyd ef yno.

## Awdur

**Margaret Beatrice Davies**

## Ffynonellau

W. O. Evans (gol.): *Cyfrol Goffa y Parchedig D. O. Jones yn cynwys ei gofiant a nifer o'i bregethau* (Bangor 1904)

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Yr Eurgrawn Wesleyaidd*, 1903, 352

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821106

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu